OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1489 (Cy.154) (C.59)

CEFN GWLAD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 8 Mehefin 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 103(3), (4) a (5) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf")(**1**):

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r canlynol ddod i rym—

(a) adran 18 o'r Ddeddf (Wardeniaid);

(b) adran 20 o'r Ddeddf (Codau ymddygiad a gwybodaeth arall); ac

(c) adran 46(1)(a) o'r Ddeddf, ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â hi, Rhan I o Atodlen 16 i'r Ddeddf (diddymu adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 ("Deddf 1925")(**2**))

yw 21 Mehefin 2004.

Arbed

3. Er gwaethaf diddymu adran 193(2) o Ddeddf 1925 gan erthygl 2(c) o'r Gorchymyn hwn, mae unrhyw weithred a gyflawnir o dan yr adran honno o Ddeddf 1925 sydd mewn grym yn union o flaen dyddiad dod i rym y Gorchymyn hwn i barhau i fod yn effeithiol.

(**1**) 2000 p.37.
(**2**) 1925 p.20.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
8 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.